**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**NORTH WALES FIRE AND RESCUE AUTHORITY**

**Cynhelir cyfarfod o'r PWYLLGOR ARCHWILIO DDYDD LLUN 25 IONAWR 2016 ym MHENCADLYS Y GWASANAETH TÂN AC ACHUB, LLANELWY am 1pm.**

Yn gywir

Colin Everett
Clerc

## AGENDA

1. **Ymddiheuriadau**

2. **Datganiadau o Ddiddordebau**

3. **Rhybudd o Faterion Brys**

   Rhybudd o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel mater o frys yn unol ag Adran 100B (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol, 1972

4. **Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd 14 Medi 2015**

5. **Materion yn codi**

6. **Dangosyddion Darbodus, Strategaeth Rheoli'r Trysorlys, y Strategaeth Fuddsoddi a Pholisi Darpariaeth Isafswm Refeniw**

7. **Strategaeth Archwiliad Mewnol**

8. **Llythyr Archwilio Blynyddol**

9. **Materion Brys**

   Ystyried unrhyw eitem y penderfyna'r Cadeirydd sy'n fater brys (o dan Adran 100B (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol, 1972) y nodwyd ei gynnwys o dan eitem 3 uchod.

**<u>RHAN II</u>**

Argymhellir yn unol ag Adran 100A (4) o Deddf Llywodraeth Leol, 1972 bod y Wasg a'r Cyhoedd i'w gwahardd o'r cyfarfod tra'n ystyried yr eitem(au) busnes canlynol am ei bod yn debygol y byddai gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraffau 12 i 18 o Ran 4 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 yn cael ei datgelu iddynt.

Dim.

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**
**PWYLLGOR ARCHWILIO**

Cofnodion Cyfarfod Pwyllgor Archwilio Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gynhaliwyd ar 14 Medi 2015 ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub yn Llanelwy. Dechreuodd y cyfarfod am 2pm.

YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr:

| | |
|---|---|
| J R Skelland (Cadeirydd) | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| A I Dunbar | Cyngor Sir y Fflint |
| A Evans | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| J G Evans | Cyngor Sir Ynys Môn |
| C Hughes | Cyngor Gwynedd |
| D Macrae | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| D Miles | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| M Reece | Cyngor Sir y Fflint |
| W P Shotton | Cyngor Sir y Fflint |
| D Simmons | Cyngor Sir Ddinbych |
| D Taylor | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| O Thomas | Cyngor Sir y Fflint |
| G G Williams | Cyngor Gwynedd |

HEFYD YN BRESENNOL:

D Docx (Dirprwy Brif Swyddog Tân); K Finch (Trysorydd); G Owens (Dirprwy Glerc); S Forrest (Cyfrifydd, Adran y Trysorydd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy); J Brown (Rheolwr Cyllid); K Spooner (KPMG); A Davies (Swyddog Cyswllt Aelodau).

YMDDIHEURIADAU:

Y Cynghorwyr:

| | |
|---|---|
| R Wright | Cyngor Gwynedd |

1 DATGAN BUDDIANNAU

1.1 Dim.

2 COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 1 MEHEFIN 2015

2.1 Cafodd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 1 Mehefin 2015 eu cyflwyno i'w cymeradwyo.

2.2 **PENDERFYNWYD cymeradwyo cofnodion y cyfarfod diwethaf yn gofnod gwir a chywir.**

3 MATERION YN CODI

3.1 Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

4 RHEOLI'R TRYSORLYS A DANGOSYDDION ARIANNOL

4.1 Cafodd yr adroddiad ei gyflwyno er mwyn i'r Pwyllgor Archwilio adolygu'r adroddiad cyn ei gyflwyno i'r Awdurdod Tân ac Achub. Mae'n un o ofynion Cod Ariannol CIPFA fod dangosyddion ariannol yn cael eu monitro'n rheolaidd a bod unrhyw newidiadau sylweddol yn cael eu cymeradwyo. Hefyd, fel rhan o god CIPFA ar Reoli'r Trysorlys, mae angen adrodd ynghylch newidiadau i fenthyca hirdymor a phartïon i gontract.

4.2 Rhoddodd Sandra Forrest gyflwyniad yn y cyfarfod a rhoi taflenni i'r Aelodau i roi gwybodaeth ychwanegol am y rhaglen gyfalaf, y benthyciadau a'r cyfraddau llog. Atebodd Ms Forrest gwestiynau'r Aelodau, a chadarnhawyd bod yr Awdurdod wedi cydymffurfio â'r holl ofynion statudol a rheoleiddiol sy'n cyfyngu ar lefel y risg sy'n gysylltiedig â'i weithgareddau rheoli'r trysorlys.

4.3 Bu rhai newidiadau ers i'r Awdurdod gymeradwyo strategaeth rheoli'r trysorlys yn ei gyfarfod ym mis Mawrth 2015. Mae'r dangosyddion ariannol wedi newid oherwydd bod y gwariant gwirioneddol ar raglen gyfalaf 2014-2015 yn llai na'r alldro a amcangyfrifwyd. Hefyd, nododd yr Aelodau y benthyciadau a oedd yn yr adroddiad.

4.4 **PENDERFYNWYD argymell bod yr Awdurdod Tân ac Achub yn gwneud y canlynol:**
- **(i) cymeradwyo'r Dangosyddion Ariannol wedi'u diwygio;**
- **(ii) nodi'r partïon i gontract;**
- **(iii) nodi'r benthyciadau newydd.**

5 DATGANIAD O GYFRIFON

5.1 Cafodd y datganiad archwiliedig o gyfrifon 2014-15 a'r datganiad llywodraethu blynyddol eu cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio gan mai hwnnw sydd wedi cael y gorchwyl o sicrhau bod craffu effeithiol yn digwydd ar yr adroddiadau ariannol, a'u bod yn gwneud argymhellion i'r Awdurdod yn seiliedig ar eu canfyddiadau. Yn unol â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Diwygio) (Cymru) 2010, rhaid cymeradwyo'r datganiadau erbyn 30 Medi.

5.2 Rhoddodd Ms Forrest gyflwyniad manwl i'r Aelodau ac ateb eu cwestiynau am y datganiad. Nodwyd bod y cyfrifon wedi cael eu diwygio yn unol â'r holl ganfyddiadau archwiliedig ac nid oedd yr un ohonynt yn ddigon sylweddol i gael adroddiad ar wahân.

5.3 Roedd yr archwilwyr wedi argymell, yn unol â'r Cod Ymarfer, y dylai asedau gael eu hailbrisio bob pum mlynedd er mwyn sicrhau bod y gwerthoedd a adlewyrchir yn y fantolen yn rhai cyfredol ac yn adlewyrchu tueddiadau'r farchnad ar hyn o bryd.

5.4 Rhoddodd y Rheolwr Gweithredol Cyllid ddiweddariad i'r diffoddwyr tân ynglŷn â cynllun pensiwn y diffoddwyr tân. Nawr, gall staff cymwys y system RDS ddewis ymuno â'r cynllun pensiwn addasedig newydd. Mae nifer y rhai sydd wedi dewis ymuno â'r cynllun lawer yn uwch na'r hyn a ddisgwyliwyd yn wreiddiol. Ar sail y ffigyrau cyfredol ar gyfer costau gwasanaeth blaenorol a lefel y cofrestru hyd yn hyn, gallai cost pensiwn ychwanegol y cyflogwr fod tua £3 miliwn; ni fydd gofyn i ATAau dalu'r costau hyn i Gronfa Bensiwn y

Diffoddwyr Tân. Bydd y costau'n cyfrif fel diffyg yn erbyn y Cynllun ac yn cael eu cynnwys o fewn prisiad 2016 Adran Actiwari'r Llywodraeth, gan effeithio ar gostau pensiwn y cyflogwr o 2019 ymlaen. O ran aelodau gweithredol, bydd costau pensiwn y cyflogwr yn codi'n awtomatig oherwydd cynnydd yn nifer y gweithwyr o fewn y cynllun pensiwn; felly, bydd effaith ar unwaith ar y gyllideb refeniw.

5.5 **PENDERFYNWYD argymell i'r Awdurdod Tân ac Achub:**
**(i) cymeradwyo Datganiad archwiliedig o Gyfrifon 2014-15;**
**(ii) newid y polisi ar gyfer ailbrisio asedau, fel y bo ailbrisiad llawn o eiddo yn cael ei gynnal bob pum mlynedd o Ebrill 2016 ymlaen;**
**(iii) nodi'r llythyr sylwadau i'w anfon at yr archwilwyr allanol.**

6 ARCHWILIO ADRODDIAD Y DATGANIADAU ARIANNOL A LLYTHYR Y RHEOLWYR

6.1 Cyflwynwyd yr adroddiad gan Katherine Spooner o KPMG. Roedd y ddogfen yn crynhoi canfyddiadau'r Archwiliad o gyfrifon 2014/15. Cadarnhaodd Ms Spooner y byddai'r cyfrifon yn cael eu cyflwyno fel rhai diamod, nid oedd newidiadau mawr i'w gwneud ac ni chanfuwyd unrhyw wendidau o bwys. Fel y trafodwyd eisoes dan yr adroddiad ar y datganiad o gyfrifon, argymhellwyd bod yr Awdurdod yn ailbrisio ei holl eiddo bob pum mlynedd.

6.2 Diolchodd Ms Spooner i Dawn Docx a Sandra Forrest am eu cymorth a'u cydweithrediad yn y broses.

6.3 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.**

7 AMCANION GWELLA DRAFFT AR GYFER 2016-17

7.1 Cafodd yr Aelodau wybod am yr amcanion gwella drafft y bydd gofyn i'r Awdurdod eu cymeradwyo er mwyn ymgynghori'n gyhoeddus yn eu cylch.

7.2 Rhoddodd yr Uwch Reolwr Gweithrediadau gyflwyniad i grynhoi gwaith Gweithgor y Cynllun Gwella a'r modd y datblygwyd yr amcanion drafft dros sawl cyfarfod. Yna, rhoddodd y DBST gyflwyniad ar faterion y gyllideb y bydd angen i'r Awdurdod eu hystyried dros y misoedd nesaf er mwyn paratoi ar gyfer 2016-17 a'r tu hwnt. I ateb cwestiwn gan un o'r aelodau, cadarnhawyd y bydd y cynllun newydd ar yr amcanion a'r gyllideb yn seiliedig ar ddefnyddio cronfeydd wrth gefn i gynnal y lefel gyfredol o wasanaethau.

7.3 Esboniodd y Trysorydd y caiff yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant ei gyhoeddi ar 25 Tachwedd, sydd lawer hwyrach nag yn y blynyddoedd a fu, ac felly bydd yn arafu cyhoeddiad Llywodraeth Cymru ynghylch y gyllideb. Rhaid i'r Awdurdod gwblhau ei gyllideb ar gyfer 2016-17 yn derfynol erbyn 15 Chwefror 2016, a disgwylir bod angen cynnal cyfarfod arbennig o'r Awdurdod yn Ionawr 2016.

7.4 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.**

**EITEM AR YR AGENDA: 6**

**PWYLLGOR ARCHWILIO**
**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**25 Ionawr 2016**

**Dangosyddion Darbodus, Strategaeth Rheoli'r Trysorlys, y Strategaeth Fuddsoddi a Pholisi Darpariaeth Isafswm Refeniw**

**Adroddiad gan Ken Finch, Trysorydd**

## DIBEN YR ADRODDIAD

1 Cyflwyno'r Dangosyddion Darbodus, Strategaeth Rheoli'r Trysorlys, y Strategaeth Fuddsoddi a Pholisi Darpariaeth Isafswm Refeniw ar gyfer 2016/17 i'r Aelodau.

2 Mae'r Pwyllgor Archwilio wedi cael y dasg o sicrhau bod strategaeth rheoli'r trysorlys a'r polisïau yn cael eu craffu'n effeithiol, a gwneud argymhellion i'r Awdurdod Tân ac Achub yn seiliedig ar eu canfyddiadau.

## GWYBODAETH

3 Cyflwynwyd adroddiad ar gyllideb gyfamserol 2016/17 i'r Aelodau i'w gymeradwyo ar 14 Rhagfyr 2015. Oherwydd amseriad cyhoeddi'r setliad gan Lywodraeth Cymru bydd cymeradwyo'r gyllideb derfynol yn cael ei wneud gan gyfarfod arbennig i'r Awdurdod Tân ac Achub ar 25 Ionawr 2016. Mae'r Dangosyddion Darbodus a Strategaeth Rheoli'r Trysorlys wedi eu paratoi gan ddefnyddio'r data perthnasol a oedd yn y cyllidebau refeniw a chyfalaf i'w cyflwyno i'r Aelodau yn y cyfarfod arbennig.

4 Mae'r adroddiad hwn yn dangos y Dangosyddion Darbodus ar gyfer 2016/17 i 2018/19, ac mae'n amlinellu'r strategaeth i'w dilyn mewn perthynas â benthyca a buddsoddi arian yr Awdurdod ar gyfer blwyddyn ariannol 2016/17. Mae'r adroddiad hefyd yn nodi'r cynigion ar gyfer polisi'r Awdurdod am Ddarpariaeth Isafswm Refeniw ar gyfer 2016/17. Mae'r papurau amgaeedig yn amlinellu:-

(i) rhestr o ddangosyddion darbodus sydd eu hangen gan God Darbodus CIPFA ar gyfer Cyllid Cyfalaf mewn Awdurdodau Lleol (Atodiad A);

(ii) Strategaeth Rheoli'r Trysorlys yn amlinellu'r strategaeth i'w dilyn o ran benthyca tymor byr a hirdymor ar gyfer 2016/17 yn unol â Chod Ymarfer CIPFA ar gyfer Rheoli'r Trysorlys (Atodiad B);

(iii) y strategaeth i'w dilyn o ran buddsoddi cronfeydd yr Awdurdod Tân (Atodiad C);

(iv) y Datganiad Darpariaeth Isafswm Refeniw (Atodiad D).

5 Dylai'r Pwyllgor nodi bod y strategaethau yn yr adroddiad wedi eu paratoi gan ddefnyddio canllawiau gan Arlingclose, sef ymgynghorwyr Rheoli'r Trysorlys a ddefnyddir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy sydd a chyfrifoldeb am swyddogaeth Trysorlys y Gwasanaeth Tân ac Achub.

**ARGYMHELLION**

6 Argymhellir bod y Pwyllgor Archwilio'n cymeradwyo pob un o'r pedwar elfen allweddol sydd yn yr adroddiadau hyn, ac yn argymell y rhain i'r Awdurdod Tân ac Achub:

(i) y Dangosyddion Darbodus sydd yn atodiad A;

(ii) Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2016/17 sydd yn atodiad B;

(iii) y Strategaeth Fuddsoddi sydd yn atodiad C;

(iv) y Polisi Darpariaeth Isafswm Refeniw sydd yn atodiad D.

ATODIAD A

**DANGOSYDDION DARBODUS A BUDDSODDI CYFALAF**

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Yn ôl Deddf Llywodraeth Leol 2003 mae'n ofynnol i'r Awdurdod fabwysiadu Cod Darbodus CIPFA a pharatoi dangosyddion darbodus. Mae pob dangosydd naill ai'n crynhoi'r gweithgaredd cyfalaf disgwyliedig neu'n gosod terfynau ar y gweithgaredd hwnnw, ac mae'n adlewyrchu canlyniad system arfarnu cyfalaf yr Awdurdod. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf am y dangosyddion cymeradwy presennol ac mae'n cyflwyno dangosyddion newydd ar gyfer 2017/18. Cyhoeddwyd cod diwygiedig yn 2009 ac mae'r adroddiad hwn yn cydymffurfio gyda'r gofynion newydd sy'n gofyn i'r adroddiad hwn gael ei graffu fwy gan y rhai hynny sydd yng ngofal trefn lywodraethol - y Pwyllgor Archwilio sydd â'r cyfrifoldeb ar gyfer yr Awdurdod Tân ac Achub.

1.2 Cyflwynir y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2016/17 i'r Awdurdod Tân .ar 25 Ionawr 2016 ac mae'r dangosyddion hyn yn cefnogi'r rhaglen honno. Mae rhyddid gan yr Awdurdod dros wariant cyfalaf cyn belled â'i fod yn ddarbodus, fforddiadwy a chynaliadwy. Er mwyn dangos ei fod yn gweithio o fewn y terfynau hyn rhaid i'r Pwyllgor Archwilio gymeradwyo, adolygu a monitro ystod sylfaenol o Ddangosyddion Darbodus o leiaf ar gyfer y tair blynedd sydd i ddod.

## 2. Y CYNLLUNIAU GWARIANT CYFALAF

2.1 Isod, crynhoir cynlluniau gwariant cyfalaf yr Awdurdod ac mae hyn yn ffurfio'r cyntaf o'r dangosyddion darbodus i'w cymeradwyo gan yr Aelodau. Mae'r holl wariant cyfalaf yn y flaenraglen ar hyn o bryd heb ei gynnal a rhaid ei ariannu o adnoddau'r Awdurdod ei hun..

2.2 Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd y Llywodraeth yn penderfynu gosod terfynau ar wariant cyfalaf heb ei gynnal drwy gyflwyno mesurau rheoli ar sail hirdymor ar holl gynlluniau Awdurdodau Lleol neu, pe bai asesiad gan Lywodraeth Ganol yn nodi bod cynlluniau lleol yn anfforddiadwy mewn Awdurdod penodol, gallai weithredu rheolaeth leol i gyfyngu ar ei gynlluniau gwariant cyfalaf. Ni weithredwyd unrhyw fesurau rheoli o'r fath yn ystod 2015/16, ac mae'n annhebygol y defnyddir rheolaethau ar gyfer 2016/17.

| | 2014/15 Gwirioneddol £'000 | 2015/16 Diwygiedig £'000 | 2016/17 Amcangyfrif £'000 | 2017/18 Amcangyfrif £'000 | 2018/19 Amcangyfrif £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | |
| Gwariant cyfalaf | 6,654 | 10,438 | 4,014 | 5,150 | 2,825 |
| Ariannwyd gan: | | | | | |
| Derbyniadau cyfalaf | -22 | 0 | -430 | 0 | 0 |
| Grantiau cyfalaf | -131 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Refeniw | -1,234 | -655 | -190 | 0 | 0 |
| Angen ariannol net am y flwyddyn | 5,267 | 9,783 | 3,394 | 5,150 | 2,825 |

## 3. Angen yr Awdurdod o ran Benthyca (Gofyniad Cyllido Cyfalaf)

3.1 Yr ail ddangosydd darbodus yw Gofyniad Cyllido Cyfalaf yr Awdurdod (CFR). Yn syml, y CFR yw cyfanswm y gwariant cyfalaf nad yw wedi ei dalu eto o'r adnoddau refeniw na chyfalaf. Yn y bôn, dyma fesur o angen yr Awdurdod yn sylfaenol o ran benthyca. Bydd y gwariant cyfalaf uchod na thalwyd amdano ar unwaith yn cynyddu'r CFR. Gofynnir i'r Aelodau gymeradwy rhagamcanion y CFR fel isod:

| | 2014/15 Gwirioneddol £'000 | 2015/16 Diwygiedig £'000 | 2016/17 Amcangyfrif £'000 | 2017/18 Amcangyfrif £'000 | 2018/19 Amcangyfrif £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Gofyniad Cyllid Cyfalaf (CFR) | | | | | |
| CFR Agoriadol | 24,320 | 27,444 | 34,871 | 35,577 | 37,901 |
| CFR Cloi | 27,444 | 34,871 | 35,577 | 37,901 | 37,751 |
| Symudiad yn y CFR | 3,124 | 7,427 | 706 | 2,324 | -150 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Symudiad yn y CFR a gynrychiolir gan | | | | | |
| Yr angen cyllido net ar gyfer y flwyddyn (uchod) | 5,266 | 9,783 | 3,394 | 5,150 | 2,825 |
| Llai MRP/VRP | -2,142 | -2,356 | -2,688 | -2,826 | -2,975 |
| Symudiad yn y CFR | 3,124 | 7,427 | 706 | 2,324 | -150 |

3.2 Mae'n ofynnol i'r Awdurdod dalu elfen o wariant cyfalaf cronedig y Gronfa Gyffredinol bob blwyddyn drwy dâl refeniw (Darpariaeth Isafswm Refeniw - MRP), er fe ganiateir iddo hefyd wneud taliadau gwirfoddol ychwanegol (VRP).

3.3 Dangosir effaith ddisgwyliedig y penderfyniadau gwariant cyfalaf uchod ar sefyllfa'r Awdurdod o ran dyled a buddsoddi yn Strategaeth y Trysorlys.

## 4. DANGOSYDDION DARBODUS FFORDDIADWYEDD

4.1 Mae'r adrannau blaenorol yn ymdrin â dangosyddion darbodus cyfalaf cyffredinol a rheolaeth benthyca, ond o fewn y fframwaith hwn mae'n rhaid i ddangosyddion darbodus asesu fforddiadwyedd y cynlluniau buddsoddi cyfalaf. Mae'r rhain yn rhoi syniad o effaith cynlluniau buddsoddi cyfalaf ar sefyllfa ariannol gyffredinol yr Awdurdod. Gofynnir i'r Aelodau gymeradwyo'r dangosyddion canlynol:

4.2 **Ffigurau gwirioneddol ac Amcangyfrifon o gymhareb costau ariannu i'r llif refeniw net** - Mae'r dangosydd hwn yn nodi'r duedd yng nghost cyfalaf (costau benthyca a chostau ymrwymiadau eraill yn yr hirdymor) yn erbyn y llif refeniw net. Mae amcangyfrifon costau ariannu'n cynnwys ymrwymiadau presennol a'r Rhaglen Gyfalaf sydd i'w gymeradwyo gan yr Aelodau yn Ionawr 2016.

| | 2014/15 Gwirioneddol % | 2015/16 Diwygiedig % | 2016/17 Amcangyfrif % | 2017/18 Amcangyfrif % | 2018/19 Amcangyfrif % |
|---|---|---|---|---|---|
| Cymhareb | 8.11 | 9.75 | 10.63 | 11.52 | 11.99 |

4.3 **Amcangyfrifon o effaith gynyddol penderfyniadau buddsoddi cyfalaf ar y cyfraniadau gan yr Awdurdodau Cyfansoddol** – Mae'r dangosydd hwn yn nodi'r costau refeniw sy'n gysylltiedig â'r rhaglen gyfalaf tair blynedd arfaethedig a argymhellir yn yr adroddiad ar y gyllideb.

| | Cyllideb Arfaethedig 2016/17 £'000 | Cyllideb Arfaethedig 2017/18 £'000 | Cyllideb Arfaethedig 2018/19 £'000 |
|---|---|---|---|
| Cynnydd o ran cyfraniadau | 50 | 564 | 1,260 |

ATODIAD B

**Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2016/17 - 2018/19**

## 1. Cyflwyniad

1.1 Mae'r gwasanaeth rheoli'r trysorlys yn rhan bwysig o'r ffordd y mae materion yr Awdurdod yn cael eu rheoli'n ariannol yn gyffredinol. Mae'r dangosyddion darbodus yn Atodiad A yn ystyried a yw'r penderfyniadau a wneir ynghylch gwariant cyfalaf yn fforddiadwy, a beth yw eu heffaith, ac maent yn nodi fframwaith gyfalaf cyffredinol yr Awdurdod. Mae strategaeth y trysorlys yn ystyried a yw'r penderfyniadau hyn yn cael eu hariannu'n effeithiol ai peidio. Gyda'i gilydd maent yn rhan o'r broses sy'n sicrhau bod yr Awdurdod yn cwrdd â'r gofyn am gyllideb gytbwys o dan y Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992. Mae dangosyddion darbodus sy'n benodol i'r trysorlys wedi'u cynnwys yn y strategaeth hon, ac mae angen eu cymeradwyo.

1.2 Mae gweithgareddau trysorlys yr Awdurdod yn cael eu rheoli'n llym gan ofynion statudol a chod ymarfer proffesiynol (Cod Ymarfer CIPFA ar Reoli'r Trysorlys). Mabwysiadodd yr Awdurdod God Ymarfer CIPFA ar Reoli'r Trysorlys a Datganiad Polisi Rheoli'r Trysorlys ar 15 Rhagfyr 2003. Mae hyn yn bodloni gofynion y cyntaf o Ddangosyddion Darbodus y Trysorlys. Cafodd polisi diwygiedig ei gyhoeddi yn Ebrill 2011 a'i gymeradwyo gan Aelodau, ac mae'r adroddiad hwn yn seiliedig ar y polisi newydd.

1.3 Yn ôl y Cod rhaid cyflwyno strategaeth flynyddol i'r Awdurdod yn amlinellu gweithgarwch disgwyliedig y trysorlys am y 3 blynedd i ddod. Cyflwynir adroddiad monitro canol blwyddyn, ac ar ddiwedd blwyddyn darperir adroddiad yn nodi'r gweithgarwch gwirioneddol yn y flwyddyn

1.4 Un o ofynion allweddol yr adroddiad hwn yw egluro'r risgiau yn ogystal â rheolaeth o'r risgiau sy'n gysylltiedig â gwasanaeth y trysorlys. Bydd yr adroddiad o'r strategaeth yn ymdrin â'r meysydd canlynol:

(i) Dyled yr Awdurdod a'i ragamcanion o ran buddsoddi;
(ii) Amcangyfrifon yr Awdurdod a therfynau ar lefelau dyled yn y dyfodol;
(ii) Y newidiadau a ddisgwylir mewn cyfraddau llog;
(iii) Strategaeth fenthyca'r Awdurdod;
(iv) Fframwaith fuddsoddi, gwrth bartïon a hylifedd ariannol yr Awdurdod;
(vi) Dangosyddion darbodus y trysorlys.

## 2. RHAGAMCANION O RAN DYLED A BUDDSODDI 2015/16 – 2018/19

2.1 Dyma'r sefyllfa bresennol ar 13 Ionawr 2016:

Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus- £20,499,581 Cyfradd Sefydlog
Awdurdodau Lleol Eraill - £10,000,000 Cyfradd Sefydlog
Buddsoddiadau - £2.100,000

2.2 Mae’r gofyniad benthyca’n cynnwys y newidiadau a ddisgwylir yn y CFR, ac unrhyw ad-daliadau ar ddyledion sydd angen eu hail-ariannu. Yn y tabl isod dangosir yr effaith ar sefyllfa’r trysorlys dros y tair blynedd nesaf. Mae hefyd yn tynnu sylw at y newid a ddisgwylir mewn balansau buddsoddi.

| £’000 | 2015/16 Diwygiedig | 2016/17 Amcangyfrif | 2017/18 Amcangyfrif | 2018/19 Amcangyfrif |
|---|---|---|---|---|
| **Dyled Allanol** | | | | |
| Dyled ar 1 Ebrill | 24,940 | 32,367 | 33,573 | 36,397 |
| Newid yn y CFR | 7,427 | 706 | 2,324 | -150 |
| Ail-ariannu dyledion sy’n aeddfedu | 14,000 | 9,000 | 9,000 | 9,000 |
| Addasiad ar gyfer blynyddoedd cynt/tan-fenthyca | 0 | 500 | 500 | 500 |
| Dyled ar 31 Mawrth | 32,367 | 33,573 | 36,397 | 36,747 |
| Newid blynyddol mewn dyled | 7,427 | 1,206 | 2,824 | 350 |
| **Buddsoddiadau** | | | | |
| Cyfanswm buddsoddiadau ar 31 Mawrth | 1,500 | 1,500 | 1,000 | 1,000 |
| Newid o ran buddsoddiadau | 0 | 0 | -500 | -500 |

## 3. TERFYNAU I WEITHGARWCH BENTHYCA

3.1 O fewn y dangosyddion darbodus mae nifer o ddangosyddion allweddol i sicrhau bod yr Awdurdod yn gweithredu o fewn y terfynau penodol hyn.

3.2 Ar gyfer y cyntaf o’r rhain, mae angen i’r Awdurdod sicrhau nad yw cyfanswm ei fenthyciadau, net o unrhyw fuddsoddiadau, ac eithrio yn y tymor byr, yn uwch na chyfanswm y CFR yn y flwyddyn flaenorol ynghyd ag amcangyfrifon o unrhyw CFR ychwanegol ar gyfer 201617 a’r ddwy flwyddyn ariannol ganlynol. Mae hyn yn rhoi rhywfaint o hyblygrwydd ar gyfer benthyca cynnar cyfyngedig ar gyfer y dyfodol, ond mae'n sicrhau nad yw benthyca’n digwydd i bwrpas refeniw.

| | 2015/16 Gwirioneddol £’000 | 2016/17 Diwygiedig £’000 | 2017/18 Amcangyfrif £’000 | 2018/19 Amcangyfrif £’000 |
|---|---|---|---|---|
| Dyled ar 1 Ebrill | 24,940 | 32,367 | 33,573 | 36,397 |
| Newid disgwyliedig mewn Dyled | 7,427 | 1,206 | 2,824 | 350 |
| Ymrwymiadau Tymor Hir eraill | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Dyled Gros ar 31 Mawrth | 32,367 | 33,573 | 36,397 | 36,747 |
| CFR | 34,871 | 35,577 | 37,900 | 37,751 |

3.3 Yn ôl adroddiad y Trysorydd mae'r Awdurdod wedi cydymffurfio â'r dangosydd darbodus hwn yn y flwyddyn gyfredol ac nid yw'n rhagweld unrhyw anawsterau ar gyfer y dyfodol. Mae'r farn hon yn cymryd i ystyriaeth ymrwymiadau presennol, cynlluniau presennol, a'r cynigion yn adroddiad y gyllideb.

3.4 **Y Terfyn Awdurdodedig** – mae hwn yn cynrychioli terfyn uwchlaw'r hyn a waherddir o ran dyled allanol ac mae angen i'r terfyn hwn gael ei bennu neu ei ddiwygio gan yr Awdurdod Tân. Mae'n adlewyrchu lefel dyled allanol, y gellid ei fforddio yn y tymor byr, er nad yw hynny'n ddymunol, ond nad yw'n gynaliadwy yn y tymor hir. Dyma'r terfyn statudol a bennir o dan adran 3 (1) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003.

3.5 **Y Ffin Weithredol** - mae'r dangosydd hwn yn seiliedig ar y ddyled allanol debygol yn ystod y flwyddyn; nid terfyn mohono. Gallai dyled allanol wirioneddol amrywio o gwmpas y ffin hon am gyfnodau byr yn ystod y flwyddyn. Dylai weithredu fel dangosydd monitro i sicrhau nad eir yn uwch na'r terfyn awdurdodedig.

3.6 Gofynnir i'r Aelodau gymeradwyo'r terfyn awdurdodedig canlynol a'r ffin weithredol:

| | 2015/16 Diwygiedig £'000 | 2016/17 Amcangyfrif £'000 | 2017/18 Amcangyfrif £'000 | 2018/19 Amcangyfrif £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Terfyn Awdurdodedig | 36,871 | 37,577 | 39,900 | 39,751 |
| Ffin Weithredol | 34,871 | 35,577 | 37,900 | 37,751 |

## 4. Y CEFNDIR ECONOMAIDD A'R NEWID DISGWYLIEDIG MEWN CYFRADDAU LLOG

4.1 Gellir cysylltu'r newid mewn cyfraddau llog gyda gweithgarwch economaidd y prif economïau ac i amcangyfrif y newid mewn cyfraddau bydd economegwyr yn edrych ar amodau presennol ac yn amcangyfrif twf economaidd yn y dyfodol i ragfynegi'r newidiadau mewn cyfraddau. Oherwydd yr amodau presennol mae Arlingclose yn credu mai'r tueddiad yn yr hirdymor yw y bydd cyfraddau'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus yn codi yn araf ac y bydd cyfradd y banc yn symud fyny 25 pwynt sylfaenol erbyn Medi eleni. Y cyngor presennol gan ein Hymgynghorwyr Trysorlys yw gohirio unrhyw weithgarwch benthyca sy'n ymwneud â chyfraddau llog sefydlog a defnyddio cronfeydd wrth gefn a balansau i ariannu dyled benthyca. Fodd bynnag, os bydd angen benthyca, dylai unrhyw ddyled newydd fod yn hwy na phum mlynedd oherwydd proffil aeddfedu presennol y portffolio dyledion a'r angen i liniaru rhag y risg o newidiadau posibl i gyfraddau llog. Isod, ceir amlinelliad cryno o'r rhagolygon cyfredol ar gyfer yr economi, a'r newid disgwyliedig mewn cyfraddau llog.

4.2 Mae economi'r DU wedi cael blwyddyn gadarn yn 2015, ac amcangyfrifir twf cyffredinol o ryw 2.5% drwy weithgarwch yn cael ei lywio'n ddomestig a lefel uchel o brynu a defnyddio ar aelwydydd. Mae rhai arwyddion bod y twf yn mynd yn fwyfwy cytbwys. Dylai'r mwy o gyfraniad o fuddsoddiad busnesau roi cymorth i'r Cynnyrch Domestig Gros (GDP) ehangu'n barhaus, ond yn arafach. Fodd bynnag, nid yw'r pwysau chwyddiant yn niweidiol ac mae'n debygol o aros yn isel yn y tymor hir. Bu cwympiadau mawr mewn diweithdra ond mae lefelau gweithio'n rhan-amser, hunangyflogaeth a thangyflogaeth yn sylweddol, ac mae twf enillion bach iawn yn parhau'n wan ac yn is na chwyddiant.

4.3 Yn yr Unol Daleithiau, fe wnaeth y 'Federal Reserve' godi'r cyfraddau llog i 0.5% yn Rhagfyr 2015 oherwydd yr enillion economaidd yn y farchnad lafur, gwariant aelwydydd a gwelliannau yn y sector tai. Awgrymir y bydd cyfraddau yn yr UDA yn codi bedair gwaith yn 2016 ond bydd rhywfaint o ansicrwydd yn y farchnad gan fod yr etholiadau arlywyddol ar y gweill. Gallai arafu yn economi Tsieina effeithio ar y rhagolygon ar gyfer twf byd-eang yn gyffredinol. Gallai'r newidiadau yn yr Economi Fyd-eang fod yn un o'r ffactorau a fydd yn cyfrannu ar y mater a fydd Pwyllgor Polisi Ariannol Banc Lloegr yn codi'r gyfradd llog yn y flwyddyn i ddod ai peidio.

4.4 Mae trosi dwy o gyfarwyddebau'r Undeb Ewropeaidd yn ddeddfwriaeth y DU yn rhoi'r baich o achub banciau'r UE sy'n methu yn anghymesur ar fuddsoddwyr awdurdodau lleol, sydd heb eu diogelu. Mae'r *Bank Recovery and Resolution Directive* yn hyrwyddo buddiannau busnesau unigol a bychain sy'n dod dan Gynllun Digolledu Gwasanaethau Ariannol a chynlluniau Ewropeaidd eraill, tra bod y *Deposit Guarantee Schemes Directive*, sydd wedi ei ail-lunio, yn cynnwys cwmnïau mawr yn y cynlluniau hyn. Effaith cyfun y ddau newid yma yw gadael awdurdodau cyhoeddus a sefydliadau ariannol (gan gynnwys cronfeydd pensiwn) fel yr unig uwch gredydwyr sy'n debygol o gael colledion mewn banc sy'n methu ar ôl Gorffennaf 2015.

4.5 Yn y tabl isod, rhagwelir y newid yn y cyfraddau llog:-

| | **Cyfradd Sylfaenol** | **Gilt 5 mlynedd** | **Gilt 20 Mlynedd** |
|---|---|---|---|
| 2016/17 | 1.0% | 1.7% | 2.6% |
| 2017/18 | 1.5% | 1.9% | 2.7% |
| 2018/19 | 1.5% | 2.2% | 2.8% |

## 5. STRATEGAETH FENTHYCA 2016/17

5.1 Mae cyfraddau llog tymor hir mewn perygl o fod fymryn yn uwch yn y tymor canolig, a disgwylir i gyfraddau llog tymor byr gynyddu eleni, er nid llawer.

5.2 Mae risg y bydd cyfraddau llog sefydlog tymor hir yn uwch dros y tymor canolig, a disgwylir i gyfraddau tymor byr aros fel y maent yn y tymor byr. Bydd y Trysorydd, o dan bwerau wedi'u dirprwyo iddo, yn benthyca ar y ffurf fwyaf priodol yn dibynnu ar y cyfraddau llog sy'n debygol o fod ar gael ar y pryd, gan gymryd i ystyriaeth y risgiau a ddangosir yn y rhagolygon uchod. Mae'n debygol y gallai cyfraddau sefydlog tymor byr gynnig cyfleoedd cost isel yn y tymor byr/canolig. Fodd bynnag, fel y dangosir uchod (paragraff 4.1) mae Arlingclose wedi cynghori y dylai unrhyw fenthyca newydd fod am gyfnod hirach na phum mlynedd oherwydd strwythur aeddfedu'r portffolio presennol. Mae cost benthyca newydd ar gyfradd uwch wedi ei ffactorio i mewn i'r gyllideb ar gyfer 2016/17.

5.3 Mae'r Bwrdd Benthyca Gwaith Cyhoeddus wedi strwythuro ei drefniadau benthyca fel bod ailstrwythuro dyled yn anodd, fodd bynnag gyda'r tebygolrwydd y bydd cyfraddau tymor hir yn codi, mae'n debygol bydd unrhyw ailstrwythuro dyled posib yn canolbwyntio ar newid o gyfraddau tymor hir i ddyled tymor byr rhatach, er y bydd y Trysorydd ac ymgynghorwyr y trysorlys yn monitro'r cyfraddau ar y pryd am unrhyw gyfleoedd yn ystod y flwyddyn.

5.4 Hefyd bydd yr opsiwn o ohirio benthyca a lleihau balansau buddsoddi yn cael ei ystyried. Bydd hyn yn lleihau risg partïon i gontract, ac yn gwrthsefyll y gostyngiad disgwyliedig mewn adenillion ar fuddsoddiadau. Dylid gwerthfawrogi y bydd rhaid i'r Awdurdod fenthyca yn y dyfodol i ariannu'r rhaglen gyfalaf.

## 6. FFRAMWAITH BUDDSODDI, PARTÏON I GONTRACT A HYLIFEDD ARIANNOL

6.1 Mae newidiadau rheoleiddio yn y sector bancio yn cynyddu'r risgiau sy'n gysylltiedig â gweithgarwch y trysorlys. Mae'r newidiadau hyn, fel yr amlinellir ym mharagraff 4.4, yn gwbl weithredol ers Gorffennaf 2015. Yng ngoleuni'r newidiadau, mae'n bwysig i'r portffolio buddsoddiadau fod yn amrywiol er mwyn lledaenu'r risg. Fel y nodir ym mharagraff 4.1, byddai'n ddoeth defnyddio cronfeydd wrth gefn a balansau i ariannu'r ddyled benthyciadau dros dro fel y bo buddsoddiadau arian parod mor fach â phosibl. Nid oes modd symud i ffwrdd yn llwyr o fuddsoddi fel adnau arian parod i fanciau a chymdeithasau adeiladu gan fod angen rhywfaint o hylifedd ar gyfer llif arian. Felly byddai'n ddoeth gwneud adnau arian parod yn rhai tymor byr, ac edrych ar gyfryngau eraill ar gyfer buddsoddi'r arian sydd gan yr Awdurdod dros ben. Er mwyn arallgyfeirio'r portffolio, ychwanegwyd 'Repos' (Cytundebau Ailbrynu o chwith - Reverse Repurchase Agreements) i'r rhestr o bartïon i gontract. Trafodir y sefyllfa bresennol o ran Repos yn fanylach yn y cyfarfod.

6.2 Bydd y Trysorydd yn cadw rhestr o bartïon i gontract gan gydymffurfio gyda'r meini prawf canlynol:-

**Banciau £5 miliwn o derfyn**
Pob banc yn y DU a'u his-fanciau sydd â graddiadau da (Fitch neu gyfatebol). Diffinnir hyn ar hyn o bryd fel

| | |
|---|---|
| tymor hir | BBB |

Bu newidiadau ym meini prawf yr asiantaethau graddio yn dilyn y newid i ddeddfwriaeth bancio'r DU fel y nodir ym mharagraff 4.4. Hysbysir yr Aelodau am y newidiadau hyn yn y cyfarfod.

**Llywodraeth Ganolog £5 miliwn o derfyn**
Swyddfa rheoli dyled

**Awdurdodau Lleol £2 miliwn o derfyn**
Pob un heblaw am y rhai sy'n agored i gyfyngiad treth cyngor a praeseptau o dan Ran 1 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992.

**Cymdeithasau Adeiladu, £2 miliwn o derfyn**
Cymdeithasau Adeiladu wedi eu graddio (fel gyda'r sector bancio).

**Cymdeithasau Adeiladu (Asedau £1 biliwn o asedau) –£2m /9mis o derfyn**
Cymdeithasau adeiladu heb eu graddio ond gydag asedau gwerth £1 biliwn neu fwy.

**Cytundebau Ailbrynu o chwith - £1 miliwn o derfyn i bob Repo**
Terfyn benthyca ar gyfer un sefydliad

6.3 Mae'r meini prawf a nodir uchod ar gyfer dewis partïon i gontract yn cynnig agwedd gadarn i fuddsoddi a'u nod yw lleihau'r risgiau ariannol i'r Awdurdod yn sgil buddsoddi arian ar y farchnad arian. Fodd bynnag, canllaw cyffredinol yw'r meini prawf a restrir uchod, a chaiff ffactorau eraill eu hystyried er mwyn penderfynu a yw parti i gontract yn cael ei dynnu o'r rhestr, er enghraifft 'Negative Watch', neu newidiadau i drosoledd mantolen sefydliadau. Mae'r Sefydliadau ar y rhestr partïon i gontract yn cael eu monitro'n agos gan Ymgynghorwyr y Trysorlys, a bydd staff y trysorlys yn addasu gweithgarwch ar fyr rybudd i ddiogelu sefyllfa'r Awdurdod. Mae'r rheolaethau sydd yn y fframwaith yn agored i newid yn ôl amodau'r farchnad. Ar hyn o bryd, dim ond am 6 mis ar y mwyaf y gwneir buddsoddiadau, dyna gyngor Arlingclose, sef ein Hymgynghorwyr Trysorlys. Yr arferiad yw cynnal buddsoddiadau i ddiben llif arian parod yn unig, a defnyddio unrhyw arian dros ben yn lle benthyca.

## 7. DANGOSYDDION PERFFORMIAD Y TRYSORLYS

7.1 Mae tri dangosydd darbodus arall sy'n berthnasol i'r trysorlys. Eu pwrpas yw sicrhau bod gweithgarwch swyddogaeth y trysorlys o fewn rhai cyfyngiadau, a thrwy hynny reoli risg a lleihau effaith newidiadau niweidiol mewn cyfraddau llog. Er hynny, os bydd y mesurau hyn yn rhy gaeth byddant yn amharu ar y cyfleoedd i leihau costau.

7.2 Argymhellir bod yr Awdurdod yn gosod terfyn uchaf ac isaf ar gyfer strwythur aeddfedu ei fenthyciadau cyfradd sefydlog fel a ganlyn:

| | Terfyn Uchaf | Terfyn Isaf |
|---|---|---|
| O dan 12 mis | 55% | 0% |
| 12 mis ac o fewn 24 mis | 45% | 0% |
| 24 mis ac o fewn 5 mlynedd | 45% | 0% |
| 5 mlynedd ac o fewn 10 mlynedd | 75% | 0% |
| 10 mlynedd a mwy | 100% | 0% |

Mae'r terfyn uchaf ar gyfer y sefyllfa fenthyca tymor byr, sef o dan 12 mis, yn aros ar 55% er mwyn galluogi'r Awdurdod i fanteisio ar y cyfraddau llog isel. 41% yw canran y benthyciadau sy'n aeddfedu ymhen llai na 12 mis o amser a hynny oherwydd bod £10 miliwn o fenthyciadau tymor byr yn cael eu dal gydag Awdurdodau Lleol eraill. Bydd unrhyw fenthyca newydd yn cael ei wneud dros gyfnod hwy, dyna gyngor ein Hymgynghorwyr Trysorlys er mwyn lledaenu'r risg.

7.3 Argymhellir bod yr Awdurdod yn cymeradwyo'r terfynau canlynol ar gyfraddau llog Sefydlog a Newidiol

| | % Benthyca |
|---|---|
| Cyfradd Llog Sefydlog | 55 – 100 |
| Cyfradd Llog Newidiol | 0 – 35 |

Atodiad C

## Y STRATEGAETH FUDDSODDI

### 1. Y RHAGOLYGON PRESENNOL

1.1 **Prif Amcanion** - Prif amcanion strategaeth fuddsoddi'r Awdurdod yw sicrhau yr ad-delir y prif fuddsoddiadau a llog ei fuddsoddiadau yn brydlon yn y lle cyntaf a sicrhau hylifedd ariannol yn ail - a'r trydydd amcan yw adenillion buddsoddi. Gallai newidiadau i'r sector bancio gynyddu'r risg i'r Awdurdod, fel yr amlinellir ym mharagraff 4.4 yn atodiad B.

1.2 Mae disgwyliadau ar gyfraddau llog tymor byr, y seilir penderfyniadau buddsoddi arnynt, yn dangos ei bod yn debygol y bydd y gyfradd llog bresennol o 0.5% yn cynyddu i 0.75% erbyn Medi 2016. Mae penderfyniadau buddsoddi'r Awdurdod yn seiliedig ar gymharu'r cynnydd yng nghyfraddau'r farchnad yn erbyn rhagolygon y Awdurdod ei hun a'i ymgynghorwyr.

1.3 Mae anhawster gweithredol clir yn deillio o amodau presennol y farchnad. Yn ddelfrydol byddai buddsoddiadau'n cael eu buddsoddi am gyfnod hirach i sicrhau gwell adenillion, ond mae ansicrwydd ynghylch partïon i gontract a'r newidiadau rheoleiddio yn awgrymu y byddai cyfnodau byrrach yn rhoi gwell diogelwch ac y bydd arian dros ben yn cael ei ddefnyddio yn lle benthyca.

1.4 Mae'r arian sydd ar gael ar gyfer buddsoddiadau ar hyn o bryd tua £1.5 miliwn. Defnyddir yr arian i ddiben llif arian parod yn unig, gyda'r unrhyw arian dros ben sy'n codi o'r cronfeydd wrth gefn yn cael eu defnyddio yn lle benthyca. Ar hyn o bryd, ni ragwelir gwneud buddsoddiadau hirdymor.

### 2. CANLLAWIAU BUDDSODDI CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

2.1 Cyhoeddodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru Ganllawiau Buddsoddi ym Mawrth 2004, a dyma sail strwythur polisi'r Awdurdod, sydd isod.

2.2 Prif fwriad y Canllawiau yw cynnal y gofyniad presennol i Awdurdodau fuddsoddi'n ddarbodus, a bod blaenoriaeth yn cael ei rhoi i ddiogelwch a hylifedd ariannol cyn arenillion. Er mwyn hwyluso'r nod hwn, yn ôl y canllawiau mae'n ofynnol i'r Awdurdod ystyried cyhoeddiad CIPFA, sef "Treasury Management in the Public Services: Code of Practice and Cross-Sectoral Guidance Notes". Mabwysiadodd yr Awdurdod y Cod ar 15 Rhagfyr 2003, a bydd yn rhoi ei egwyddorion ar waith yn ei holl weithgarwch buddsoddi. Yn unol â'r Cod, mae'r Trysorydd wedi paratoi ei arferion rheoli trysorlys, TMP 1(5), sy'n cynnwys polisi buddsoddi partïon i gontract sydd angen ei gymeradwyo bob blwyddyn.

2.3 Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol – Offerynnau Cymeradwy

Prif ofynion y Cod a'r canllawiau buddsoddi yw sefydlu strategaeth fuddsoddi flynyddol fel rhan o'i strategaeth rheoli'r trysorlys flynyddol ar gyfer y flwyddyn ddilynol, yn cynnwys nodi a chymeradwyo'r canlynol:

(i) Canllawiau'r strategaeth ar gyfer gwneud penderfyniadau ar fuddsoddiadau, yn arbennig buddsoddiadau amhenodol.

(ii) Yr egwyddorion i'w defnyddio i bennu uchafswm cyfnodau ar gyfer ymrwymo cronfeydd.

(iii) Buddsoddiadau penodol y bydd yr Awdurdod yn eu defnyddio. Buddsoddiadau hylifedd uchel a diogelwch uchel yw'r rhain mewn sterling, gydag aeddfedrwydd o ddim mwy na blwyddyn.

(iv) Buddsoddiadau amhenodol, yn nodi'r oblygiadau risg uwch, yn nodi'r mathau cyffredinol o fuddsoddiad y gellir eu defnyddio a therfyn ar faint o wahanol gategorïau yn gyffredinol y gellir eu dal ar unrhyw adeg.

2.4 Polisi buddsoddi arfaethedig yr Awdurdod yw:

(i) Canllawiau Strategaeth –
Amlinellir prif ganllawiau'r strategaeth uchod gyda'r pwyslais ar ddiogelwch a hylifedd ariannol.

(ii) Cyfnodau Buddsoddi –
Polisi'r Awdurdod yw benthyca cronfeydd am uchafswm o 364 diwrnod.

(iii) Buddsoddiadau penodol - Buddsoddiadau sterling yw'r rhain ag aeddfedrwydd o ddim mwy na blwyddyn. Mae'r rhain yn asedau risg isel lle y mae'r posibilrwydd o golli'r prif incwm neu incwm buddsoddi'n fach. Byddai'r rhain yn cynnwys buddsoddiadau gyda:

Swyddfa Rheoli Dyled y Trysorlys
Awdurdodau Lleol Eraill (heblaw am rai â threth wedi'i gapio)
Pob Banc a Chymdeithas Adeiladu yn y DU gyda graddiad credyd uchel

(iii) Buddsoddiadau Amhenodol –
Buddsoddiadau amhenodol yw unrhyw fath arall o fuddsoddiad (h.y. heb ei ddiffinio fel un Penodol uchod). Mae hyn yn cynnwys Cymdeithasau Adeiladu heb unrhyw raddiad, a benthyciadau am fwy na 364 diwrnod. Pennwyd terfyn o £3m ar gyfer buddsoddiadau "amhenodol".

**ATODIAD D**

## Datganiad Darpariaeth Isafswm Refeniw

### Cefndir

1. Y Gofyniad o ran Cyllid Cyfalaf (CFR) yn syml yw'r gwariant cyfalaf sy'n ddyledus, sydd heb ei dalu o naill ai adnoddau refeniw na chyfalaf, ac yn y bôn dyma fesur o angen yr Awdurdod yn sylfaenol o ran benthyca. Mae gofyn i'r Awdurdod dalu elfen o'i wariant cyfalaf bob blwyddyn drwy dynnu o'r cyfrif refeniw (y Ddarpariaeth Isafswm Refeniw) er ei fod yn cael cymryd taliadau gwirfoddol ychwanegol hefyd.

2. Mae Rheoliadau wedi eu cyflwyno sy'n gosod rheidrwydd ar yr Awdurdod Tân i gymeradwyo Datganiad Darpariaeth Isafswm Refeniw cyn dechrau pob blwyddyn.

### Polisi Darpariaeth Isafswm Refeniw

3. Argymhellir bod yr Aelodau'n cymeradwyo'r Polisi Darpariaeth Isafswm Refeniw a ganlyn:

   Ar gyfer gwariant cyfalaf a wariwyd cyn 1 Ebrill 2016 ac unrhyw wariant ar ôl hynny, polisi'r Ddarpariaeth Isafswm Refeniw fydd ad-dalu
   - 4% o'r balans sy'n ddyledus o wariant cyfalaf a wariwyd ar Dir ac Adeiladau (ac eithrio Gorsaf Dân Wrecsam a adeiladir o'r newydd)

   - ac ar gyfer Cerbydau, Peiriannau, Offer ac Isadeiledd, bydd y Ddarpariaeth Isafswm Refeniw yn seiliedig ar amcangyfrif o oes yr asedau
   - bydd y gwariant a wneir ar Orsaf Dân Wrecsam yn cael ei ad-dalu dros oes y les sydd gydag Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (50 mlynedd)

4. Mae'r polisi uchod yn unol â'r Rheoliadau, ac mae'n dilyn yr arfer a weithredwyd gan yr Awdurdod Tân ers sawl blwyddyn. Gosodwyd y gyllideb ar gyfer 2016/17, a gymeradwywyd gan yr Aelodau ym mis Ionawr 2016, drwy ddefnyddio'r arferion uchod.

**EITEM AR YR AGENDA: 7**

**PWYLLGOR ARCHWILIO**
**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**25 Ionawr 2016**

**STRATEGAETH ARCHWILIO MEWNOL 2015 HYD AT 2019**

**Adroddiad gan Mike Halstead, Pennaeth Gwasanaethau Archwilio a Chaffael**

**DATGANIAD STRATEGAETH**

1 Strategaeth gyffredinol y gwaith Archwilio Mewnol yw:

**"I gyflwyno cynllun archwilio yn seiliedig ar risg mewn modd proffesiynol, annibynnol, i ddarparu barn ar y lefel o sicrwydd y gellir rhoi i'r sefydliad ar amgylchedd y rheolaeth fewnol, ac i wneud argymhellion i'w wella."**

2 Mae cylch gwaith Archwilio Mewnol i'w gael yn y Cytundeb Lefel Gwasanaeth ar gyfer darparu gwasanaethau ariannol gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy am y cyfnod 1af Ebrill 2015 hyd at 31ain Mawrth 2019. Isod, rhestrir ac ymhelaethir ynghylch y mesurau sydd mewn lle ar gyfer cyflwyno manyleb ac amserlen y gwasanaethau sydd yn y Cytundeb.

**SAIL STATUDOL AR GYFER ARCHWILIO MEWNOL**

3 Mae'r gofyniad am swyddogaeth Archwilio Mewnol gan awdurdod lleol ymhlyg yn adran 151 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau "wneud trefniadau ar gyfer gweinyddu'n gywir eu materion ariannol". Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005 yn gwneud gofyniad penodol fod "corff perthnasol yn cynnal system ddigonol ac effeithiol o archwilio mewnol i gofnodion cyfrifyddu yn fewnol a'i system o reoli mewnol, a hynny yn unol â'r arferion archwilio mewnol priodol".

## DIFFINIAD AC AMCAN

4 Yn unol â Safonau Archwilio'r Sector Cyhoeddus a ddaeth i rym yn Ebrill 2013, mae'n ofynnol i'r Pennaeth Archwilio Mewnol ddatblygu a chynnal strategaeth ar gyfer darparu gwasanaeth Archwilio Mewnol. Swyddogaeth sicrwydd yw Archwilio Mewnol sydd, yn anad dim, yn darparu barn annibynnol a gwrthrychol i'r sefydliad ynghylch yr amgylchedd reoli, ac mae hynny'n cynnwys rheoli risg, rheolaeth a llywodraethu, a hynny trwy werthuso pa mor effeithiol ydyw wrth gyflawni amcanion y sefydliad. Mewn ffordd wrthrychol, mae'n archwilio, yn gwerthuso, ac yn adrodd ynghylch pa mor ddigonol yw'r amgylchedd reoli fel cyfraniad i'r defnydd cywir, economaidd, effeithlon ac effeithiol o adnoddau. Mae'r amgylchedd reoli'n cynnwys holl weithrediadau'r awdurdod, ei adnoddau, ei wasanaethau, a'i gyfrifoldebau at gyrff eraill.

5 Mae'r Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio yn ei gwneud yn ofynnol i ATAGC lunio Datganiad Llywodraethu Blynyddol bob blwyddyn. Mae'r Pennaeth Archwilio yn darparu adroddiad blynyddol i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethiant, a hynny er mwyn cefnogi'r modd y caiff y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ei lunio. Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys barn ynglŷn â digonolrwydd ac effeithiolrwydd y systemau rheoli risg, a'r amgylchedd rheolaeth fewnol; datgelu unrhyw gymwysterau i'r farn honno ynghyd â rhesymau; crynodeb o'r gwaith archwilio y mae'r farn honno wedi ei seilio arni; y graddau y dibynnwyd ar waith cyrff sicrwydd eraill; ac unrhyw faterion a ystyrir yn berthnasol i lunio'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

6 Mae Archwilio Mewnol yn gweithredu mewn rôl ymgynghorol wrth gynghori rheolwyr ynghylch materion sydd o fewn ei gylch gwaith, megis gweithredu'r rheolaethau priodol o ran prosiectau, datblygiadau a systemau newydd. Yn y cynllun archwilio, pennir yr union ddyraniad o adnoddau mewn perthynas â'r gwaith ymgynghorol. Caniateir dyraniadau amser ar wahân ar gyfer gweithgarwch ymgynghorol, gwaith sy'n ymwneud â thwyll ariannol ac archwiliadau dilynol.

## STATWS

7 Mae Archwilio Mewnol yn atebol i'r Trysorydd at ddibenion rheolaeth llinell, ac mae'n gymorth i gyflawni swyddogaethau statudol y Prif Swyddog Ariannol, fel y diffinnir hynny yn Adran 151 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. Fodd bynnag, mae Archwilio Mewnol yn annibynnol o ran ei waith cynllunio a'i weithrediad.

8 Mae gan y Pennaeth Gwasanaethau Archwilio fynediad uniongyrchol at y Prif Swyddog Tân, pob lefel o reolwyr, a'r aelodau etholedig. Mae gan Archwilwyr Mewnol awdurdod i:

- fynd i mewn i unrhyw un o sefydliadau'r awdurdod ar unrhyw adeg resymol.
- cael mynediad at yr holl gofnodion, gwybodaeth a gohebiaeth sy'n ymwneud ag unrhyw drafodion ariannol neu drafodion eraill fel y tybir yn angenrheidiol, a hynny at ddibenion adolygiadau a/neu ymchwiliadau fel rhan o archwiliadau.
- gwerthuso pa mor ddigonol ac effeithiol yw'r rheolaethau mewnol sydd wedi eu bwriadu i sicrhau asedau a data, a hynny er mwyn cynorthwyo rheolwyr i atal a chanfod twyll ariannol.
- gofyn am esboniadau fel y tybir yn angenrheidiol er mwyn eu bodloni eu hunain fod unrhyw fater sydd dan ymchwiliad yn gywir.
- ei gwneud yn ofynnol i unrhyw un o weithwyr ATAGC gyflwyno arian, deunyddiau neu unrhyw eiddo arall sy'n perthyn i'r awdurdod a sydd yn eu meddiant hwy neu dan eu rheolaeth hwy.
- mynd at gofnodion sy'n perthyn i drydydd partïon, megis contractwyr neu bartneriaid, pan fo angen hynny a phan fo'n briodol.

**DARPARU'R GWASANAETH ARCHWILIO**

9 Pennaeth y Gwasanaethau Archwilio sy'n gyfrifol am ddarparu'r gwasanaeth archwilio, a hynny yn unol â'r Gwasanaeth Lefel Gwasanaeth. Er mwyn sicrhau y gwneir hyn, mae trefniadau priodol ar gael ar gyfer:

- pennu a chyflwyno'r gwaith sydd i'w gyflawni, yn seiliedig ar Asesiad o Anghenion a phroses gynllunio sy'n seiliedig ar risg, cynllun archwilio blynyddol o'r ochr weithredol a chynlluniau gwaith misol. Mae pob cynllun yn seiliedig ar asesu risg.
- darparu'r adnoddau angenrheidiol ar gyfer darparu'r cynllun archwilio, y sgiliau angenrheidiol (o ran archwilio yn gyffredinol, ac mewn meysydd technegol) a chyfleusterau cefnogol, megis cyfleusterau Technoleg Gwybodaeth, offer a phrosesau rheoli a gweinyddu.

10 Bydd y gwasanaeth Archwilio Mewnol yn cael ei ddarparu ar sail Asesiad o Anghenion (**Atodiad A**), sef dull sy'n seiliedig ar risg, a hynny er mwyn pennu anghenion yr Awdurdod ar ddechrau'r flwyddyn a chynlluniau gweithredol manwl a fydd yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio yn flynyddol i'w cymeradwyo. Mae'r asesiad yn nodi nifer y

diwrnodiau sydd eu hangen i Archwilio Mewnol allu adolygu'n ddigonol y meysydd dan sylw, a lefel Asesiad Risg ar gyfer pob aseiniaid archwilio a gynllunnir. Amcan blaenaf y dull hwn yw sicrhau bod Archwilio Mewnol yn gallu cyflwyno barn ynghylch yr amgylchedd reoli, trwy gyfeirio adnoddau digonol yn seiliedig ar risgiau perthynol y gweithrediadau, yr adnoddau a'r gwasanaethau dan sylw, a hynny gan ddefnyddio proses Asesu Risg ffurfiol. Mae proses yr Asesu Risg yn cadw mewn cof amrywiaeth o risgiau strategol, corfforaethol, gwasanaethol a gweithredol, gan gynnwys y rhai a nodir trwy'r broses Rheoli Risg, a chan yr archwilydd allanol, a barn yr uwch reolwyr ynghylch y materion hyn. Lle nad yw'r adnoddau sydd ar gael yn rhai y mae Pennaeth y Gwasanaethau Archwilio yn eu hystyried yn ddigonol ar gyfer rhoi barn o'r fath, adroddir hyn i'r sefydliad trwy'r Panel Gweithredol.

11 Mae'r Cynllun yn cydbwyso'r gofynion canlynol:

- yr angen i sicrhau y bydd y Cynllun Archwilio yn cael ei gwblhau i'r lefelau targed a sefydlwyd gan ddangosyddion perfformiad yr adain;
- yr angen i sicrhau bod y systemau ariannol craidd yn cael eu hadolygu'n ddigonol er mwyn darparu sicrwydd fod gan y rheolwyr drefniadau priodol mewn lle ar gyfer rheolaeth ariannol y bydd yr Archwiliad Allanol yn dibynnu arno;
- yr angen i adolygu trefniadau strategol a gweithredol eraill yn briodol;
- yr angen i gael amser heb rwymedigaeth ar gael i ymdrin â materion na chynlluniwyd ar eu cyfer ac a allai fod yn gofyn am adolygiad neu ymchwiliad;
- dyraniad perthynol yr adnoddau, rhwng sicrwydd, rhai'n ymwneud â thwyll ariannol a gwasanaethau ymgynghorol a ddarperir gan archwilio mewnol.

12 Bydd y cynnydd yn erbyn y cynllun gweithredol a chynnwys y cynllun yn cael ei gadw dan adolygiad gan Bennaeth y Gwasanaethau Archwilio mewn cysylltiad â'r Trysorydd, a thrwy fonitro datblygiadau corfforaethol a datblygiadau'r gwasanaeth. Bydd y Pwyllgor Archwilio yn cael gwybod am berfformiad yn erbyn y cynllun gweithredol.

13 Bydd Archwilio Mewnol yn cydymffurfio â Chanllawiau'r Bwrdd Arferion Archwilio ar gyfer Archwilwyr Mewnol, fel y'u dehonglir gan God Ymarfer CIPFA ar Archwilio Mewnol mewn Llywodraeth Leol yn y DU, ac mae disgwyl i'r holl staff gydymffurfio ag unrhyw safonau proffesiynol priodol eraill. Bydd Pennaeth y Gwasanaethau Archwilio yn sicrhau bod Llawlyfr Archwilio wedi'i ddiweddaru mewn lle, sy'n rhestru'r safonau disgwyliedig, a bydd yn monitro cydymffurfiad â'r safonau hyn, yn cynnwys y rhai sy'n ymwneud â chynllunio, cynnal ac adrodd ynghylch aseiniadau archwilio.

14 Yn 2003, fe wnaeth Archwilio Mewnol roi ar waith becyn hyfforddi CIPFA i archwilwyr, ac roedd cyswllt rhwng hwnnw â'r broses datblygu ac adolygu blynyddol mewn perthynas â phob aelod o'r staff. Yn ddiweddar, mae CIPFA wedi diweddaru'r pecyn hyfforddi hwn gyda'r *Excellent Auditor*, a rhoddwyd hwn ar waith ar gyfer yr holl staff er 2007/08. Mae'r pecyn hyfforddi hwn wedi ei gynllunio i sicrhau bod yr hyfforddiant perthnasol yn cael ei adnabod a'i ddarparu i bob archwilydd, er mwyn eu galluogi i gael y lefel o sgiliau sydd eu hangen i gyflawni eu rôl. Mae'n ategu cynllun PDR yr awdurdod, sy'n cael ei ddefnyddio gyda phob aelod o staff yr Adain Archwilio Mewnol.

15 Bydd Archwilio Mewnol yn ceisio cydweithredu'n effeithiol â'r archwilydd allanol, a sicrhau y gellir gosod y ddibyniaeth briodol ar weithgarwch yr Archwilio Mewnol.

16 Mae dull adrodd Archwilio Mewnol wedi ei nodi yn y Cytundeb Lefel Gwasanaeth, a bydd Archwilio Mewnol yn cydymffurfio â'r dull hwn gan mai dyma'r ffordd fwyaf effeithlon o gael canlyniadau ei waith.

17 Wrth gyflwyno pob aseiniad, bydd Archwilio Mewnol yn ystyried gwneud argymhellion ymarferol yn seiliedig ar ganfyddiadau'r gwaith, ac yn trafod y rhain â'r rheolwyr, fel bod y rheolwyr yn ymrwymo i gynllun gweithredu priodol ar gyfer gweithredu unrhyw welliannau i'r amgylchedd reoli.

**ARGYMHELLIAD**

18 Bod y Strategaeth Archwilio Mewnol 2015–2019 yn cael ei derbyn gan y Pwyllgor Archwilio.

AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

# Asesiad o Anghenion a Chynllun Archwilio ar gyfer 2016/17

| | Y Brif System a'r Is-System | Meysydd Posib i'w Harchwilio | Asesiad Risg | | Diwrnodau 2016/17 | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes Risg – Rheoli a Llywodraethu Strategol** | | | | | | |
| 1 | Llywodraethu Corfforaethol | Y Trefniadau ar gyfer Cydymffurfio'n Gyfreithiol;<br>Llunio Polisïau a Phenderfyniadau;<br>Cynllun Dirprwyo;<br>Codau Ymddygiad – Y Swyddogion;<br>Codau Ymddygiad – Yr Aelodau;<br>Hyfforddiant ac Ymwybyddiaeth;<br>Cyflogau'r Prif Swyddogion;<br>Rheolau Sefydlog a Rheoliadau Ariannol;<br>Gwrth-dwyll a Chwythu'r Chwiban;<br>Polisi Amgylcheddol. | A | | | Mae'r Awdurdod wedi sefydlu Cod Lleol ar Lywodraethu, a chaiff ei ddefnyddio fel y safon ar gyfer mesur perfformiad yr Awdurdod mewn hunanasesiad a wneir ar ddiwedd pob blwyddyn er mwyn ffurfio'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Cadarnhaodd KPMG bod yr Awdurdod yn gyfoes â'r ddeddfwriaeth newydd a bod prosesau addas ar waith.<br>**Archwiliad Llywodraethu Corfforaethol 2013/14 – Sicrwydd Uchel**<br><br>**Archwiliad Dilynol Llywodraethu Corfforaethol – Tachwedd 2015 –**<br>O'r 11 o argymhellion a wnaed yn yr adroddiad archwilio a gyhoeddwyd ym Mai 2014; roedd 4 argymhelliad wedi'u gweithredu'n llwyr, ystyrid bod 5 yn waith ar y gweill, roedd 1 wedi'i weithredu'n rhannol ac mae'r argymhelliad ynglŷn â sefydlu Strategaeth Cynaliadwyedd ac Amgylcheddol yn dal yn aros. |

| | Y Brif System a'r Is-System | Meysydd Posib i'w Harchwilio | Asesiad Risg | | Diwrnodau 2016/17 | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 2 | Cynllunio Gwasanaeth | Cynllunio Corfforaethol;<br>Cynllun Integredig Rheoli Risg;<br>Cynllun Perfformiad Gwerth Gorau;<br>Cynlluniau Unedau Gwasanaeth;<br>Cynllun Gwella CPA;<br>Moderneiddio;<br>Ymgynghori;<br>Asesu Risg;<br>Sicrhau Adnoddau a Chymeradwyaeth Ariannol;<br>Uned Cydlynu Gwelliannau | B | | | **Adroddiad Gwella Blynyddol 2014/15** |
| 3 | Rheoli Perfformiad | Rolau a Chyfrifoldebau;<br>Gosod Targedau;<br>Casglu Data;<br>Rheolaeth Ansawdd Data;<br>Adrodd;<br>Defnyddio Gwybodaeth Reoli i gefnogi Gwelliannau i Wasanaethau. | A | | | **Adroddiad Gwella Blynyddol 2014/15**<br>**Dibynadwyedd a defnyddio gwybodaeth perfformiad** – *'Mae systemau sefydledig yn cynhyrchu gwybodaeth reoli gywir, er bod bylchau o ran cydraddoldeb, y mae'r Awdurdod yn ei defnyddio er mwyn cefnogi gwelliant.'* |
| 4 | Rheoli Risg, Cynllunio rhag Argyfyngau a Pharhad Busnes | Polisïau a Fframwaith,<br>Swyddogaethau a chyfrifoldebau;<br>Hyfforddiant;<br>Cofrestr Risg Corfforaethol;<br>Integreiddio mewn Prosesau Rheoli;<br>Mecanweithiau Monitro a Sicrwydd;<br>Adrodd;<br>Cynllunio rhag Argyfyngau;<br>Asesu Risg;<br>Parhad Busnes;<br>Chwilio ac Achub Trefol;<br>Cydymffurfio â CCA 2004;<br>Gweithio gydag Asiantaethau Partneriaethol a Busnesau Lleol;<br>Fforymau Cydnerthedd;<br>Cyfleusterau Cynadleddau Symudol; | A | | | **Adroddiad Gwella Blynyddol SAC 2014/15.**<br>**Defnyddio Adnoddau** – *'Mae'r Awdurdod wedi rheoli'r gwaith o gyflawni arbedion effeithlonrwydd tra'n cynnal lefelau diogel o wasanaeth ond mae'r lleihad mewn gallu corfforaethol yn debygol o arafu newidiadau yn y dyfodol.'* |

| | Y Brif System a'r Is-System | Meysydd Posib i'w Harchwilio | Asesiad Risg | | Diwrnodau 2016/17 | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes Risg – Cyflwyno Gwasanaeth yr Ochr Weithredol** | | | | | | |
| 5 | Cydraddoldeb ac Amrywiaeth | Cydymffurfio â Deddfwriaeth;<br>Polisi, Ymarfer a Gweithdrefn;<br>Cyfrifoldebau;<br>Ymwybyddiaeth a Hyfforddiant;<br>Rheoli Perfformiad. | C | | | **Adroddiad Gwella Blynyddol SAC 2014/15**.<br>**Comisiynydd y Gymraeg – Adolygu Cynllun yr Iaith Gymraeg –** *'Mae'r Awdurdod yn gweithio'n gadarnhaol ar ei Gynllun Iaith Gymraeg er mwyn gwella ei Wasanaeth Cymraeg.'* |
| 6 | Gweithrediadau'r Ystafell Reoli<br><br>Ymateb i Ddigwyddiadau a'u Rheoli | Cydymffurfio â Lliniaru Risg Allweddol;<br>Gweithdrefnau Anfon Allan;<br>Blaenoriaethu Ymateb i Ddigwyddiadau;<br>Monitro a Mesur Perfformiad;<br>Staffio ac Adnoddau;<br>Hyfforddiant<br>Y System Rheoli Digwyddiadau. | C | | | |
| 7 | Gweithdrefnau Galwadau Ffug | Polisi a Gweithdrefn;<br>Cofnodi a Monitro;<br>Addysg;<br>Cyfathrebu. | C | | | |

| | Y Brif System a'r Is-System | Meysydd Posib i'w Harchwilio | Asesiad Risg | | Diwrnodau 2016/17 | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 8 | Diogelwch Tân Cymunedol a'r Tasglu Llosgi Bwriadol | Cyfathrebu;<br>Addysg;<br>Cael adnoddau;<br>Proffilio Risg;<br>Gweithio gyda Busnesau, Awdurdodau Addysg Lleol, Ymddiriedolaeth Plant a Phobl Ifanc, Tîm Troseddwyr Ifanc, Gwasanaethau Tân ac Achub eraill;<br>Prosiect systemau taenellu;<br>Larymau mwg;<br>Archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref;<br>Digwyddiadau Diogelwch Cymunedol;<br>Mynd at Gerbydau | C | | | Yn ystod 2010/11 adolygwyd gwaith partneriaeth Diogelwch Tân Cymunedol. Barn yr Archwiliad oedd 'digonol'. Gwnaed archwiliad dilynol ym mis Gorffennaf 2012 - ailaseswyd Barn yr Archwiliad fel Boddhaol.<br><br>**Cynhaliwyd Archwiliad o'r Archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref yn 2014/15 – Barn yr Archwiliad - Boddhaol**<br><br>Archwiliad Dilynol o Archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref (Tachwedd 15) – gwnaethpwyd 10 o argymhellion yn yr adroddiad archwilio a gyhoeddwyd fis Ionawr 2015; gweithredwyd 5 argymhelliad yn llwyr, gweithredwyd 4 yn rhannol ac mae'r argymhelliad ynghylch cyflwyno'r Adroddiad Blynyddol i'r Grŵp Gweithredol i graffu arno a'i gymeradwyo yn aros.<br><br>**Gorsaf Dân Gymunedol y Rhyl 2014/15 – Barn yr Archwiliad – Boddhaol**<br><br>Archwiliad Dilynol Gorsaf Dân Gymunedol y Rhyl (Tachwedd 15). O'r 11 o argymhellion a wnaed yn adroddiad yr archwiliad fis Mawrth 2015; gweithredwyd 8 argymhellion yn llwyr, ystyrid bod 1 yn waith sy'n mynd rhagddo, gweithredwyd 1 yn rhannol ac mae'r argymhelliad ynghylch llunio Adroddiad Blynyddol yn dal yn aros. |

| | Y Brif System a'r Is-System | Meysydd Posib i'w Harchwilio | Asesiad Risg | | Diwrnodau 2016/17 | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 9 | Archwiliadau ac Ymchwiliadau | Cydymffurfio â Pholisïau;<br>Rhaglen Arolygiadau;<br>Asesiadau ar-lein;<br>Cydymffurfio â rheolau adeiladu;<br>Dyrannu trwyddedau/tystysgrifau;<br>Incwm o archwiliadau a Thrwyddedau | C | | | Ymdriniwyd ag incwm o archwiliadau a thrwyddedau fel rhan o'r archwiliad Incwm a gynhaliwyd yn 2013/14. |
| 10 | Gweithio mewn Partneriaeth | Trefn Lywodraethu Partneriaeth<br>Asesu Risg;<br>Lleihau Trosedd ac Anhrefn;<br>Partneriaethau Strategol Lleol;<br>Cytundebau Ardal Leol;<br>Awdurdodau Addysg Lleol ac eraill. | B | | | Yn ystod 2010/11 adolygwyd cydweithio yr Awdurdod gyda phartneriaid wrth werthuso'r trefniadau llywodraethol a digonolrwydd rheoliadau mewnol sydd wedi'u hymgorffori o fewn pob system gan ddarganfod unrhyw wendidau a meysydd risg posibl.<br>**Barn yr Archwiliad oedd 'Digonol'.** Gwnaed archwiliad dilynol ym mis Gorffennaf 2012 ac ailaseswyd Barn yr Archwiliad fel 'Boddhaol'<br><br>**Archwiliad o Archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref a gynhaliwyd yn 2014/15 – Barn yr Archwiliad – Boddhaol** |
| **Maes Risg – Rheoli Pobl** | | | | | | |
| 11 | Iechyd a Diogelwch | Cydymffurfio â'r Ddeddfwriaeth;<br>Polisïau, Arferion a Gweithdrefnau;<br>Cyfrifoldebau;<br>Ymwybyddiaeth a Hyfforddiant;<br>Rheoli Perfformiad;<br>Monitro ac Adrodd ynghylch Digwyddiadau;<br>Yswiriant (Atebolrwydd Cyhoeddus a Chyflogwyr) | B | | | |

| | Y Brif System a'r Is-System | Meysydd Posib i'w Harchwilio | Asesiad Risg | | Diwrnodau 2016/17 | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 12 | Rheoli Presenoldeb (lifrai a di-lifrai) | Cydymffurfio â Pholisi;<br>Cofnodi, ac adrodd ynghylch absenoldeb;<br>Gwybodaeth am Berfformiad | C | | | Gwnaed Ymchwiliad Arbennig yn 2011/12 ar faterion Adnoddau Dynol ac amser o'r gwaith yn lle cyflog (TOIL) |
| 13 | Hyfforddi a Datblygu Staff (lifrai a di-lifrai) | Gweithredu'r System Integredig Datblygiad Personol (IPDS);<br>Asesu Sgiliau;<br>Portffolios Datblygu;<br>Adolygiadau o Ddatblygiad Personol;<br>Arfarniad o Berfformiad;<br>Cyfleusterau Hyfforddi;<br>Cynlluniau Hyfforddi ar y cyd;<br>Cynllunio ar gyfer Olyniaeth;<br>Datblygu Arweinyddiaeth (Gwella'r Gwasanaeth);<br>Hyfforddiant sy'n canolbwyntio ar Werth | C | | | Swyddfa Archwilio Cymru - gwaith perfformiad a gynlluniwyd ar gyfer 2011/12 - Astudiaeth Thema - Cynlluniau Adnoddau Dynol a'r gweithlu |
| 14 | Recriwtio a Dethol | Cydymffurfio â Pholisïau a Gweithdrefnau Recriwtio;<br>Cydraddoldeb a chynhwysiant;<br>Gwiriadau cyn cyflogaeth;<br>Rheoli Perfformiad. | C | | | Gwiriadau cyn cyflogi ee geirda, gwiriadau cofnodion troseddol fel rhan o archwiliad dechreuwyr/ymadawyr **2014/15 – Barn yr Archwiliad - Boddhaol.** |
| **Maes Risg – Rheoli Prosiectau** | | | | | | |
| 15 | Rheoli Prosiectau | Uned Arbennig ar gyfer Prosiectau;<br>Rolau a Chyfrifoldebau;<br>Blaenoriaethu Prosiectau;<br>Asesu Risg;<br>Cydymffurfio â Prince 2;<br>Hyfforddiant mewn Rheoli Prosiectau;<br>Monitro a Chyflwyno;<br>Cyllido. | B | | | Cynigiodd Pennaeth yr Adran Cyfleusterau a Rheolaeth Logisteg Heddlu Gogledd Cymru fod Cyfrif Terfynol Gorsaf Dân Gymunedol y Rhyl yn cael ei asesu am afreoleidd-dra. **Fel rhan o gynllun archwilio 2011/12, bu i Wasanaeth Archwilio Mewnol Conwy adolygu'r contract hwn. Barn Archwilio – boddhaol** |

| | Y Brif System a'r Is-System | Meysydd Posib i'w Harchwilio | Asesiad Risg | | Diwrnodau 2016/17 | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes Risg – Risgiau Ariannol a Thwyll Ariannol** | | | | | | |
| 16 | Cynllunio Ariannol a Rheoli'r Gyllideb | Trefniadau Cyllido<br>Dyrannu Adnoddau<br>Cynllunio Ariannol yn y Tymor Canolig<br>Gosod a chymeradwy'r gyllideb<br>Dirprwyaethau ariannol<br>Hyfforddiant i Ddeiliaid Cyllidebau<br>Monitro cyllidebau<br>Rhagweld/Adrodd Ariannol | A | | | **Adroddiad Gwella Blynyddol 2014/15**<br><br>**Archwiliad o'r Cyfrifon –** *'Rhoddwyd barn archwilio ddiamod gan SAC ar y datganiadau cyfrifyddu a sefyllfa ariannol a thrafodion y Gronfa Bensiwn ar 29 Medi 2014. Golyga hyn fod yr Awdurdod wedi cydymffurfio â'i gyfrifoldebau yn ymwneud ag adroddiadau ariannol a defnyddio adnoddau a bod y cyfrifon yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol yr Awdurdod.'* |
| 17 | Y Gyflogres | Dechreuwyr, Ymadawyr, Newidiadau;<br>Rheoli Taliadau;<br>Ardystiadau;<br>Cywirdeb;<br>Monitro;<br>Adrodd. | A | | | Archwiliad y Gyflogres CAATS 2008/09 - barn yr Archwiliad oedd Da.<br>Adolygiad o daliadau i ddiffoddwyr tân rhan amser - adolygiad o'r drefn FIN8 electronig newydd - Barn yr Archwiliad - Boddhaol.<br><br>**Archwiliad Newidiadau'r Gyflogres i'r Archwiliad o Gyflogau 2015/16 – Barn yr Archwiliad oedd Boddhaol**<br><br>**Archwiliad o Ddechreuwyr ac Ymadawyr y Gyflogres a gynhaliwyd yn 2014/15 – Barn yr Archwiliad - Boddhaol.**<br><br>Archwiliad Dilynol o Ddechreuwyr ac Ymadawyr y Gyflogres – Ebrill 2015. O'r 7 o argymhellion a wnaed yn adroddiad yr archwiliad a gyhoeddwyd fis Gorffennaf 2014; mae pob un o'r 7 argymhelliad wedi cael eu gweithredu. |
| 18 | Lwfansau Gweithwyr a'r Aelodau | Hawliadau, awdurdodi a theithio a chynhaliaeth;<br>Gwobrau am Wasanaeth Hir;<br>Lwfansau Preswyl; | D | | | Adolygiad Archwiliad Mewnol o Lwfansau Aelodau 2005/06, barn yr Archwiliad - Da.<br>Lwfansau staff wedi'u gynnwys yn Archwiliad y Gyflogres - newidiadau i'r cyflogau 2008/09. |

| | Y Brif System a'r Is-System | Meysydd Posib i'w Harchwilio | Asesiad Risg | | Diwrnodau 2016/17 | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 19 | Pensiynau | Hysbysu'r Awdurdod sy'n Gweinyddu;<br>Gwirio newidiadau;<br>Ffioedd heb eu Hariannu. | C | | | **Adroddiad Gwella Blynyddol 2014/15** |
| 20 | Caffael a Phrynu | Strategaeth Gaffael;<br>Effeithlonrwydd a Gwerth am Arian;<br>E Gaffael;<br>Cydymffurfio â Rheoliadau Ariannol a Rheoliadau Sefydlog Cytundebau;<br>Gweithdrefnau Prynu a Thalu;<br>Gwariant ar Gardiau Credyd;<br>Gwariant ag Arian Parod. | B | | | **Adroddiad Gwella Blynyddol 2014/15**<br><br>**Cynhaliwyd archwiliad o gredydwyr 2012/13 – Sicrwydd Uchel.**<br><br>**Menter Twyll Genedlaethol GTAGC – Gwaith Cynnal a Chadw yn yr Arfaeth a Mân Waith – Cynhaliwyd Archwiliad 2015/16 – Sicrwydd Cyfyngedig** |
| 21 | Strategaeth Gyfalaf a Chyfrifydda | Gosod/Cymeradwyo'r Strategaeth a'r Rhaglen;<br>Monitro;<br>Cyfalafu/ Awdurdodi Gwariant;<br>Benthyca Darbodus;<br>Cyfrifydda a Rheoli Asedau Sefydlog;<br>Cofrestr Asedau Sefydlog;<br>Prisio/Dibrisio Asedau;<br>Yswiriant;<br>Cynlluniau Mentrau Cyllid Preifat (PFI) yn cynnwys TAW. | A | | | **Adroddiad Gwella Blynyddol 2014/15** |
| 22 | Rheoli'r Fflyd a Thanwydd | Caffael/Prydlesu;<br>Rheolaeth ac Unioniad Strategol;<br>Cynnal a Chadw ac Archwiliadau;<br>Materion sy'n ymwneud â Thanwydd a'r Defnydd ohono;<br>Gwaredu;<br>Yswiriant. | C | | | **Cynhaliwyd archwiliad Rheoli Tanwydd 2014/15. Barn yr Archwiliad - Boddhaol**<br><br>**Archwiliad Dilynol Rheoli Tanwydd – Hydref 2015**. O'r 7 o argymhellion a wnaed yn yr adroddiad archwilio a gyhoeddwyd fis Tachwedd 2014; gweithredwyd 1 argymhelliad, gweithredwyd 1 yn rhannol ac mae 5 yn destun gwaith sy'n dal i fynd rhagddo. |

| | Y Brif System a'r Is-System | Meysydd Posib i'w Harchwilio | Asesiad Risg | | Diwrnodau 2016/17 | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 23 | Casglu Incwm a Bancio | Derbyn Taliadau;<br>Incwm Grant;<br>Incwm Praesept;<br>Gweithdrefnau Casglu a Chyfrifydda;<br>Incwm Amrywiol;<br>Cydymffurfio â Pholisi Codi Tâl;<br>Incwm o Dystysgrifau Archwilio;<br>Diogelwch Arian a Bancio;<br>Yswiriant. | C | | | **Archwiliad o Incwm a gynhaliwyd yn 2013/14 – Sicrwydd Uchel.** |
| 24 | Storfeydd | Rheoli Stoc, Gwerth a Chofnodi;<br>Prynu a Derbyn;<br>Diogelwch yn y Storfeydd;<br>Diogelwch y System TG;<br>Gweithdrefnau Rhannu allan a Dychwelyd;<br>Yswiriant. | D | | | **Archwiliad o'r Storfeydd a gynhaliwyd yn 2012/13 – Sicrwydd Uchel** |
| 25 | Diogelwch yr Offer a'r Stocrestr | Lefel y Stocrestr;<br>Cofnodi ac Adolygu;<br>Marcio Offer;<br>Llogi Offer;<br>Diogelwch Lleoliadau;<br>Yswiriant. | C | | | Adolygiad Archwiliad Mewnol 2007/08. Cynhwysyd yn yr archwiliadau o Orsafoedd y System RDS 2009/10 – 2013/14. |
| 26 | Costau Cyfleustodau a Cytundebau Gwasanaeth | Tendro a Gwerth am Arian;<br>Monitro Costau;<br>Cydymffurfio â'r Rheoliadau Ariannol. | C | | | |
| 27 | Menter Genedlaethol rhag Twyll Ariannol | Lawrlwythiad y Gyflogres;<br>Lawrlwythiad y Credydwyr;<br>Ymchwilio i Allbwn yr Ymarferiad Paru Cenedlaethol. | B | | | Cydweddu data Menter Twyll Cenedlaethol (MTC) o ddata'r Gyflogres a'r credydwyr i'w gynnal bob dwy flynedd.<br><br>Gwaith MTC wedi'i wneud yn ystod 2011/12. Barn Archwiliad - Da.<br><br>**Gwaith MTC a gynhaliwyd yn 2013/14 – Sicrwydd Uchel**<br><br>**Gwaith MTC a gynhaliwyd yn 2015/16 – Sicrwydd Uchel** |

| | Y Brif System a'r Is-System | Meysydd Posib i'w Harchwilio | Asesiad Risg | | Diwrnodau 2016/17 | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 28 | Prif Systemau Ariannol<br>• Y Gyflogres<br>• Credydwyr<br>• Dyledwyr<br>• Rheoli'r Trysorlys<br>• System Gyfrifydda<br>• Gwrth-dwyll | Cyfanrwydd, Cywirdeb a Dilysrwydd Trafodion;<br>Cyfrifydda Cywir;<br>Monitro ac Adrodd;<br>Effeithlonrwydd;<br>Gwerth am Arian;<br>Dogfennu Systemau;<br>Cydymffurfio â Rheoliadau a Gweithdrefnau Ariannol. | | | | Gwneir yn flynyddol fel rhan o archwiliad systemau Cyngor Conwy.<br>Adolygiad o System Credydwyr ATAGC 2008/09, barn Archwiliad - Digonol.<br><br>**Archwiliad Credydwyr wedi'i gynnal yn 2012/13 – Sicrwydd uchel** |
| **Maes Risg – Enw Da a Hyder ymhlith y Cyhoedd** | | | | | | |
| 29 | Y Weithdrefn Gwynion | Polisi, Gweithdrefn ac Arferion Da;<br>Cydymffurfio;<br>Monitro ac Adrodd;<br>Gwella Gwasanaethau;<br>Iawndaliadau. | C | | | |
| 30 | Cyfathrebu Corfforaethol | Y Strategaeth Gyfathrebu;<br>Marchnata a'r Cyfryngau;<br>Cyfrifoldebau;<br>Monitro Digwyddiadau | C | | | |
| **Maes Risg – Technoleg a Rheoli Gwybodaeth** | | | | | | |
| 31 | Strategaeth a Rheolaeth TG | Datblygu Strategaeth a Chael Adnoddau;<br>Fframwaith Polisïau a Rheolaeth;<br>Rheoli'r Rhyngrwyd ac Ebost;<br>Cyfrifoldebau;<br>Caffael a Datblygu TGCh;<br>Yswiriant. | C | | | Gwnaeth yr archwiliad asesu faint o reolaeth sydd dros y prif beryglon ar gyfer cael mynediad i wybodaeth ar systemau TG y sefydliad ac adolygu'n benodol y meysydd canlynol ar gyfer cydymffurfio â safon diogelwch system gwybodaeth ISO 27000<br>• Rheolaeth mynediad at wybodaeth y defnyddiwr<br>• Rheolaeth mynediad at wybodaeth ar gyfrifiadur<br>• Rheolaeth mynediad at wybodaeth cymhwysiad<br>• Monitro defnydd a mynediad at wybodaeth<br>• Rheolaeth cymhwysiad dros wybodaeth personol |

| | Y Brif System a’r Is-System | Meysydd Posib i’w Harchwilio | Asesiad Risg | | Diwrnodau 2016/17 | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 32 | Rheoli Rhwydwaith | Diogelwch a Rheolaeth;<br>Diogelwch Corfforol a Rhesymegol;<br>Systemau Wrth Gefn ac Adfer wedi Trychineb;<br>Perfformiad;<br>Caledwedd, Cyfryngau, Topoleg:<br>Diogelwch a Rheolaeth:<br>Cefnogaeth i Reolwyr:<br>Meddalwedd Cyfathrebu;<br>Cysylltiadau Di-wifr. | C | | | Archwiliad o Reolaeth Rhwydwaith wedi’i wneud yn 2008/09. **Barn yr Archwiliad - Boddhaol.**<br><br>Archwiliad o Ddiogelwch Technoleg Gwybodaeth 2010/11 - **Barn yr archwiliad - Boddhaol.** |
| 33 | Telegyfathrebu (ac eithrio’r ystafell reoli) | Diogelwch a Rheoli;<br>Diogelwch Corfforol a Rhesymegol;<br>Systemau Wrth Gefn ac Adfer wedi Trychineb. | C | | | |
| 34 | E Lywodraeth | Strategaeth;<br>Cael adnoddau;<br>Mentrau;<br>Perfformiad. | C | | | Archwiliad E-Lywodraeth 2009/10 –<br>Nod yr archwiliad oedd gweld faint o reolaeth sydd dros risgiau yn y meysydd canlynol:<br>• Gweledigaeth e-lywodraeth<br>• Cydweithio ee rhwng awdurdodau<br>• Anghenion cwsmeriaid<br>• Ariannu<br>• Atebion technegol<br>• Medr - staff a sgiliau<br>• Prosesau busnes<br>• Y canolbwynt ar reolaeth strategol dros risgiau allweddol sy’n bygwth y rhaglen/gweledigaeth e-Lywodraeth<br>**Barn yr Archwiliad - Da.** |

| | Y Brif System a'r Is-System | Meysydd Posib i'w Harchwilio | Asesiad Risg | | Diwrnodau 2016/17 | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 35 | TG yr Ystafell Reoli | Ffonau Symudol;<br>Systemau Radio;<br>Systemau Galw Allan;<br>Diogelwch Corfforol;<br>Systemau Wrth Gefn ac Adfer wedi Trychineb;<br>Monitro Perfformiad. | C | | | |
| 36 | Diogelu Data / Rhyddid Gwybodaeth | Cydymffurfio â'r Ddeddfwriaeth;<br>Ymwybyddiaeth ymhlith y Staff;<br>Ceisiadau am Wybodaeth;<br>Monitro a Pherfformiad. | C | | | Archwiliad Diogelwch Data 2009/10 - i weld a yw gweithgareddau'n ymwneud â phrosesu data personol yn cael eu gwneud yn unol â pholisïau a threfn gweithio diogelu data yr Awdurdod, ac os oedd y prosesu yma yn cwrdd â gofynion y Ddeddf Diogelu Data 1998. Barn yr Archwiliad - Boddhaol.<br><br>Archwiliad Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2010/11 - i sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r gofynion statudol o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.<br>**Barn yr Archwiliad - Boddhaol.** |
| **Maes Risg – Systemau Eraill** | | | | | | |
| 37 | Gweithrediad y Ffreutur | Cytundeb a Monitro;<br>Hylendid Bwyd a Glanweithdra;<br>Hyfforddi Staff;<br>Casglu Incwm a Bancio;<br>Gweithdrefnau Archebu. | C | | | |
| 38 | Cronfeydd Lles | Gweithdrefnau ysgrifenedig;<br>Cofnodion y Cronfeydd Lles;<br>Cysoniadau Banc;<br>Archwiliadau Annibynnol. | C | | | Archwiliad o'r Cronfeydd Lles wedi'i wneud yn 2008/09. Barn yr Archwiliad oedd Anfoddhaol. Archwiliad dilynol wedi'i gynnal yn 2009/10 -<br>**Barn yr Archwiliad - Digonol.** |

| **Maes Risg – Gwaith Archwilio Arall** | | | |
|---|---|---|---|
| Cynllunio, rheoli ac adroddiad blynyddol archwilio | | | |
| Gwaith dilynol o argymhellion blaenorol | | | |
| Cronfa wrth Gefn | | | |
| | **Cyfanswm dyddiau 2016/17** | **50** | |

**Asesiadau Risg - Mae'r Asesiad o Anghenion yn dogfennu pob prosiect, ac mae'n dyrannu Graddiad Risg mewn perthynas â phob maes archwiliadwy, yn seiliedig ar lenwi matrics risg sy'n cael ei gadw ar System Cynllunio Archwiliadau a'r Amgylchedd Reoli (APACE) yr Adain Archwilio Mewnol. Yr Asesiad Risg sy'n pennu graddiad y risg ac amledd pob archwiliad wedi hynny. Lle nad yw rhyw faes wedi cael ei adolygu'n ddiweddar gan yr Adain Archwilio Mewnol na Swyddfa Archwilio Cymru, rhoddir Graddiad 'C' wrtho hyd oni fydd archwiliad wedi ei gynnal, a bod modd gwneud barn wybodus yn ei gylch. Y Graddiadau Risg cyfredol yw:**

- **Graddiad Risg A - Risg Uchel sy'n gofyn am Adolygiad Blynyddol**
- **Graddiad Risg B - Risg Uchel sy'n gofyn am adolygiad bob 2 flynedd**
- **Graddiad Risg C - Risg Canolig sy'n gofyn am adolygiad bob 3 blynedd**
- **Graddiad Risg D - Risg Isel sy'n gofyn am adolygiad bob 4 blynedd**